ATODLEN 7

Manyleb neithdar ffrwythau

# RHAN 1

## Manyleb gyffredinol neithdar ffrwythau

**1.** Neithdar ffrwythau yw'r cynnyrch eplesadwy ond heb ei eplesu a geir drwy ychwanegu dŵr at sudd a restrwyd ym mharagraff 2 naill ai gydag un o'r sylweddau a restrir ym mharagraff 3 neu hebddynt.

**2.** Dyma'r suddoedd—

(a) sudd ffrwythau;

(b) sudd ffrwythau o ddwysfwyd;

(c) sudd ffrwythau wedi ei ddwysáu;

(d) sudd ffrwythau y tynnwyd dŵr ohono;

(e) sudd ffrwythau dadhydredig;

(f) sudd ffrwythau powdr;

(g) piwrî ffrwythau;

(h) piwrî ffrwythau wedi ei ddwysáu; neu

(i) unrhyw gymysgedd o'r cynhyrchion a grybwyllir yn is-baragraffau (a) i (h).

**3.** Dyma'r sylweddau—

(a) siwgrau, a

(b) mêl.

**4.** Rhaid i swm y siwgrau neu'r mêl, neu'r siwgrau a'r mêl, a ychwanegir at y cynnyrch yn unol â pharagraff 1 beidio â bod yn fwy nag 20% o gyfanswm pwysau'r cynnyrch gorffenedig.

**5.** Rhaid i'r cynnyrch gynnwys yr isafswm cynnwys sudd ffrwythau, piwrî ffrwythau, neu gymysgedd o'r sudd hwnnw a'r piwrî hwnnw, a bennir yn Rhan 2.

**6.** Pan fo'r cynnyrch yn cael ei weithgynhyrchu heb siwgr ychwanegol neu â gwerth egni gostyngedig, caniateir i siwgrau gael eu disodli'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan felysyddion yn unol â gofynion Rheoliad 1333/2008.

**7.** Yn ychwanegol at y cynhwysion a grybwyllir ym mharagraffau 1, 2, 3, 5 a 6, caiff y cynnyrch gynnwys unrhyw rai o'r canlynol—

(a) cynhwysyn ychwanegol awdurdodedig;

(b) sylwedd ychwanegol awdurdodedig;

(c) cyflas, mwydion a chelloedd wedi eu hadfer (neu unrhyw un neu fwy ohonynt) a gafwyd drwy ddull ffisegol addas o'r un rhywogaeth o ffrwyth; a

(d) melysyddion (y caniateir eu hychwanegu ar ben unrhyw siwgr neu fêl a ychwanegir yn unol â pharagraff 1 fel y'i darllenir gyda pharagraff 3).

**8.** Ni chaniateir defnyddio triniaeth, ac eithrio triniaeth awdurdodedig, wrth weithgynhyrchu cynnyrch.